Canllaw cip

Cyngor Leuenctid Prydain

Sut i... Reoli Arian

Cyflwyniad

Rheoli arian yw un o'r pethau pwysicaf wrth redeg mudiad llwyddiannus, ac mae'n bwysig bod incwm a gwariant yn cael eu monitro drwy'r amser.

Er ei fod yn ymddangos yn dipyn o her i ddechrau, mae rheoli arian yn dod yn haws unwaith y mae gan eich mudiad systemau clir a hawdd i'w deall.

Mae'n bwysig cofio bod angen trin arian yn effeithiol ac yn effeithlon er mwyn gwneud y mwyaf o'r hyn sydd gyda chi.

Mae'r daflen wybodaeth hon yn cynnwys gwybodaeth a chyngor i'ch helpu chi i reoli arian eich mudiad yn effeithiol.

Penodi Trysorydd

Mae'n syniad da i ethol Trysorydd ar gyfer eich mudiad. Ei waith yw gwneud yn siŵr bod y mudiad yn gweithio'n dda yn ariannol.

Efallai na fydd yn trafod arian y mudiad o ddydd i ddydd, ond bydd y Trysorydd yn cadw llygad drwy'r amser ar yr incwm a'r gwariant.

Paratoi Cyllideb

Rhestr o incwm a gwariant eich mudiad yw cyllideb. Mae'n help mawr i reoli arian ac mae'n eich galluogi chi i wneud yn siŵr y byddwch chi'n gallu cadw dau pen llinyn ynghyd.

Gallwch chi baratoi cyllideb ar gyfer mis, ar gyfer blwyddyn neu ar gyfer hyd prosiect penodol. Wrth baratoi un, bydd angen ichi ystyried y pethau canlynol:

- Cynlluniwch yr holl bethau y byddwch yn gwario arian arnyn nhw yn ystod y cyfnod hwn, ac ysgrifennwch nhw i lawr. Dyma eich 'gwariant'.

- Cynlluniwch yr holl symiau o arian y bydd eich mudiad yn ei dderbyn, ac ysgrifennwch nhw i lawr. Dyma eich 'incwm'.

- Tynnwch eich gwariant o'ch incwm. Efallai hefyd yr hoffech benderfynu pa incwm fydd yn talu am ba wariant.

- Os ydy eich gwariant yn fwy na'ch incwm, bydd angen ichi addasu'ch cyllideb. Gallwch chi wneud hyn drwy dorri yn ôl ar gostau neu drwy godi mwy o arian.

- Paratowch ffordd o gadw'r wybodaeth hon yn rhywle diogel, ar gyfrifiadur neu ar bapur, fel y gallwch chi droi ati drwy'r amser. Cytunwch i edrych ar y gyllideb yn rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn ymarferol.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw cofnodion papur o'ch incwm a'ch gwariant drwy gyfriflenni banc a derbynebau. Gallwch ddefnyddio'r rhain hefyd i weld a ydych chi'n cadw at y gyllideb.

- Mae'n syniad da cael rhywun o du allan i'r mudiad i edrych ar eich cyllideb a'r cofnodion ariannol cysylltiedig bob blwyddyn, er mwyn gwneud yn siŵr bod popeth yn rhedeg yn esmwyth

Enghraifft o Gyllideb

INCWM	£	£
Grant	174	
Ffair sborion/raffl	36	
Cyfraniadau	90	
Cyfanswm incwm		300
GWARIANT		
Postio	75	
Llogi ystafell gyfarfod	125	
Offer swyddfa	60	
Cyfanswm gwariant		260
ARIAN DROS BEN/DIFFYG		40

Canllawiau ar gyfer Cadw at Gyllideb

Ar ôl ichi baratoi cyllideb, mae'n bwysig bod eich mudiad yn gweithio gyda'i gilydd i gadw ati. Mae'n werth gofyn i weddill eich grŵp gadw'r egwyddorion canlynol mewn cof:

- **Rhoi Amcan o Gostau Ymlaen Llaw**. Gwnewch hyn er mwyn cadw llygad ar eich gwariant ar wahanol weithgareddau yn erbyn y gyllideb. Os yw'n bosib, paratowch gyllideb ar gyfer pob gweithgaredd (er enghraifft digwyddiad), yn ogystal ag ar gyfer y mudiad cyfan, fel nad ydych yn gorwario.

- **Cadw Derbynebau**. Gofynnwch am dderbynebau ar gyfer yr arian rydych yn ei wario a rhowch dderbynebau ar gyfer arian rydych yn ei dderbyn. Gall y rhain fod yn rhan o'ch cofnodion ariannol wedyn.

- **Bod yn Effeithlon ag Arian**. Gwnewch yn siŵr bod y bobl allweddol sy'n trefnu digwyddiad yn gwybod faint o arian sydd ar gael iddyn nhw yn y gyllideb, neu faint o arian sydd ganddynt i'w wario. Anogwch bobl i feddwl yn greadigol am ffyrdd o dorri costau, neu ffyrdd o gael adnoddau am ddim neu adnoddau yn gyfnewid am eich help chi.

Cyfrifon Banc

Mae'n syniad da agor cyfrif banc ar gyfer eich mudiad. Bydd hyn yn helpu i gadw cofnod o'ch gweithgareddau ariannol a chadw trywydd archwilio.

I agor cyfrif banc, ewch i'ch cangen leol a siarad â chynghorydd cwsmeriaid. Bydd angen i chi ddangos manylion adnabod (rhywbeth sy'n profi pwy ydych chi, fel pasbort), rhywbeth i brofi eich cyfeiriad ac, os ydych dan 16 oed, efallai y bydd angen i chi fynd ag oedolyn gyda chi.

Cyn mynd i'r banc, ffoniwch nhw a gofyn beth fydd angen ichi fynd ag ef gyda chi.

Canllaw CP

Cyngor Leuenctid Prydain

Pum Pwynt Pennaf... Rheoli Arian

- Etholwch Drysorydd, a fydd yn gyfrifol am reoli arian eich mudiad ac am roi adroddiad i bawb arall ar y sefyllfa ariannol
- Cynlluniwch, cynlluniwch, cynlluniwch! Cynlluniwch beth rydych chi'n disgwyl ei wario a'i dderbyn yn ystod cyfnod penodol
- Cadwch gofnodion ariannol cywir, gan gynnwys eich gwariant a'ch derbynebau
- Agorwch gyfrif banc. Cadwch gopïau o'ch holl gyfriflenni banc ar gyfer eich cofnodion ariannol
- Gwnewch arian yn hwyl! Anogwch eich mudiad i feddwl am ffyrdd creadigol o wario ac arbed arian.

Am ragor o wybodaeth

gwybodaeth am hyfforddiant BYC:
www.byc.org.uk/training
neu i lwytho rhagor o adnoddau:
www.byc.org.uk/resources

Cyngor Ieuenctid Prydain

Rhown y grym i bobl ifanc drwy'r Deyrnas Unedig gyfan leisio eu barn a chael eu clywed.

www.byc.org.uk
0845 458 1489
mail@byc.org.uk

© Cyngor Ieuenctid Prydain

Rhif elusen gofrestredig 1123224 | Cwmni cyfyngedig drwy warant, rhif 6226595 | Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Swyddfa Gofrestredig: Downstream Building, 1 London Bridge, London SE1 9BG